**Cylch Gorchwyl Pwyllgor:**
# GRŴP LLYWODRAETHU GWYBODAETH

Yn adrodd i: Gweithrediaeth y Brifysgol

Yn cwrdd: 3 gwaith y flwyddyn

*Adolygwyd y cylch gorchwyl ddiwethaf: Medi 2019; diwygiwyd ddiwethaf: Medi 2019; ac i'w adolygu nesaf: Medi 2021*

| Aelodau: | Yn gweinyddu: |
|---|---|
| • Ysgrifennydd y Brifysgol (Cadeirydd)<br>• Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth<br>• Rheolwr Diogelu Data a Hawlfraint<br>• Dirprwy Gofrestrydd (Gweinyddu Myfyrwyr)<br>• Pennaeth Dadansoddi Data ac Adrodd<br>• Rheolwr Cynllunio Metrigau Adnoddau Dynol a Chynllunio'r Gweithlu<br>• Rheolwr Cofnodion<br><br>7 aelod.<br><br>Cworwm: 4 aelod. | Fel y gwêl y Cadeirydd yn dda, gwahoddir swyddogion eraill y Brifysgol i gyfarfodydd, fel y bo'n briodol. |

Cylch gwaith:

Byd y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth yn ystyried agweddau gweithredol yn ymwneud â'r canlynol ym Mhrifysgol Aberystwyth, gan gynghori Gweithrediaeth y Brifysgol a chyrff eraill fel y bo'n briodol:

- Rheoli archifau a chofnodion;
- Casglu a phrosesu data'r myfyrwyr a'r staff, gan gynnwys defnyddio'r data hwnnw at ddibenion dadansoddi ac at ddibenion ffurflenni statudol;
- Hawlfraint;
- Deddf Diogelu Data 2018, a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data;
- Rhyddid Gwybodaeth, a Chynllun Cyhoeddi'r Brifysgol;
- Lefel uchel o gydymffurfiaeth mewn perthynas â Theledu Cylch Cyfyng; a
- Diogelwch, cyfanrwydd ac ansawdd y data sy'n cael ei gasglu a'i brosesu gan y Brifysgol.

Cylch gorchwyl:

1. Ystyried y canlynol a'u hargymell i gael eu cymeradwyo gan Weithrediaeth y Brifysgol, neu gan bwyllgor llywodraethu drwy Weithrediaeth y Brifysgol:

    a. Polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â materion o fewn maes y Grŵp.

2. Ystyried y canlynol, a bod â'r awdurdod i'w hadolygu a'u cymeradwyo ar ran Gweithrediaeth y Brifysgol:

    a. Cynlluniau gweithredu i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â materion o fewn maes y Grŵp yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol.
    b. Darparu hyfforddiant i'r staff (a phan nad yw wedi'i ystyried gan gorff arall yn y sefydliad, i'r myfyrwyr).

c. Y Strategaeth ar gyfer gosod a defnyddio Teledu Cylch Cyfyng yn y Brifysgol, a'r Llawlyfr Gweithdrefnol Teledu Cylch Cyfyng cysylltiedig.

3. Derbyn adroddiadau er gwybodaeth a chynghori Gweithrediaeth y Brifysgol, neu bwyllgor llywodraethu drwy Weithrediaeth y Brifysgol, ar y canlynol:

   a. Datblygiadau yn y ddeddfwriaeth ac yn y sector ar faterion ym maes y Grŵp, gan gynghori'r Brifysgol a chyflwyno cynigion iddi a / neu'r Grŵp Llywio Technoleg a Systemau fel y bo'n briodol.
   b. Casglu a phrosesu data yn y Brifysgol – gan gynnwys gwybodaeth bersonol am y staff a'r myfyrwyr, gwybodaeth ariannol, a data ymchwil – o safbwynt cydymffurfio a diogelwch.
   c. Datblygu unrhyw is-strategaethau i'r sefydliad cyfan sy'n ymwneud â materion o fewn maes y Grŵp.

---

<u>Gweithredu</u>

Bydd Gweithrediaeth y Brifysgol yn derbyn adroddiadau cyson fel y bo'n briodol ar weithgareddau'r Grŵp.

Y Grŵp Llywio Technoleg a Systemau fydd yn ystyried materion ynglŷn â'r systemau a'r seilwaith y mae eu hangen er mwyn i ddata gael ei gasglu a'i brosesu'n ddiogel ac mewn modd sy'n cydymffurfio â'r gofynion.